Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

National Assembly for Wales
External Affairs and Additional Legislation Committee

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant,

Pobl Ifanc ac Addysg

5 Chwefror 2018

Annwyl Lynne,

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?

Heddiw, fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad,'**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**' a hynny'n dilyn ei ymchwiliad i **Wytnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit**.

Mae adran 3 o'r adroddiad yn ymwneud â pharodrwydd gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys addysg uwch. Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw'n benodol at adran 3.2 sy'n ymwneud â newidiadau i'r rheolau mewnfudo ac adran 3.5 sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi gan y gallant fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Wrth baratoi'r adroddiad hefyd, ystyriwyd **trafodaethau rapporteur** â staff a myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Rwy'n tynnu'ch sylw at yr uchod yn y gobaith y bydd o gymorth ichi yn y dyfodol pan fyddwch yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r portffolio iechyd. Er gwybodaeth rwyf wedi anfon copi i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, cofiwch gysylltu.

Yn gywir



David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565